## drysau storm

Dylid defnyddio pren panelog cadarn ar gyfer drysau storm, wedi'u gosod fel dau ddrws cul sy'n agor i mewn naill ochr i'r porth. Mae drysau heb ffenestri yn cynnig diogelwch rhagorol gyda'r nos neu ar adegau pan na fydd y perchnogion gartref os ydynt wedi'u ffitio â chloeon cadarn. Gall dolenni a blychau llythyrau o'r cyfnod hefyd ychwanegu at eu golwg

## gwaith adfer

Mae'n anffodus bod nifer o dai crand wedi colli eu cymeriad gwreiddiol oherwydd bod manylion pensaernïol a nodweddion addurnol wedi cael eu symud neu eu newid.

Mae'n hanfodol darganfod y cynllun gwreiddiol neu'r manylion coll cyn dechrau ar unrhyw waith adfer sy'n gweddu. Dechreuwch drwy astudio manylion eiddo cyfagos sydd wedi ei warchod yn dda. Neu ewch i'ch llyfrgell leol. Efallai bod ganddyn nhw brint neu lun cynnar a allai fod o help.

Mae nifer o ffyrdd i ddarganfod y nodweddion y byddai eu hangen arnoch chi i wneud y gwaith adfer. Erbyn hyn, mae eitemau pensaernïol addurnol yn cael eu hatgynhyrchu'n dda; mae'n bosibl cael teilsen grib addurnol a ffinial newydd er enghraifft. Dylech ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio deunyddiau traddodiadol a gynhyrchir o'r newydd lle bo'n bosibl ac osgoi defnyddio deunydd wedi ei achub o ffynonellau anhysbys eraill.

Mae gan y mwyafrif o gymdeithasau amwynderau cenedlaethol wefannau da sy'n rhoi cyngor. O chwilio am eitem benodol ar y we, yn aml fe allwch wneud nifer o gysylltiadau perthnasol eraill a chael gwybodaeth.

## coed

Mae coed yn yr Ardal Gadwraeth wedi'u diogelu. Mae'n rhaid i unrhyw berson sy'n dymuno torri, tocio, dadwreiddio neu ddinistrio unrhyw goeden dros 75mm o ddiamedr ac yn mesur 1.0m uwchben y ddaear gyflwyno rhybudd o'u bwriad gerbron yr Awdurdod Cynllunio Lleol 6 wythnos ymlaen llaw. Mae sawl Gorchymyn Cadw Coed ar waith eisoes sy'n berthnasol i goed arbennig yn yr Ardal Gadwraeth.

Cysylltwch â'r Swyddog Cadw Coed ar (029) 2087 3178 i ofyn am gyngor pellach.

## cyngor pellach

Yn ogystal â'r rheolau hyn, mae'r Cyngor yn ceisio cadw a mireinio cymeriad yr Ardal Gadwraeth drwy ffurfio a gweithredu gwelliannau amgylcheddol, ar yr amod bod yr adnoddau ar gael. Gan fod y rhan fwyaf o eiddo yn yr Ardal Gadwraeth mewn dwylo preifat, mae llwyddiant yr ardal fel Ardal Gadwraeth yn dibynnu ar gydweithrediad ac ymglymiad trigolion lleol.

Mae'r ddogfen hon yn ddiweddariad o'r canllawiau a fabwysiadwyd fel Canllawiau Cynllunio Atodol yn Chwefror 1996 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Nod y Canllawiau Cynllunio Atodol yw cynnig gwybodaeth ychwanegol ar y polisïau a chynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu; gall fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau neu apeliadau cynllunio.

***COFIWCH!*** ***p**e* baech yn cynnal datblygiad neu addasiadau sydd angen caniatâd cynllunio ac heb ei gael cyn cychwyn ar y gwaith, gellir cymryd camau gweithredu yn eich erbyn a all fod yn broblemus a chostus.

## cyfarwyddyd erthygl 4

Ym Mai 1991 daeth Cyfarwyddyd dan Erthygl 4 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol 1988 (fel y'i diwygiwyd 1995) yn weithredol. MAE HYN YN GOLYGU Y BYDD ANGEN CANIATÂD CYNLLUNIO AR GYFER ADDASIADAU BYCHAIN HYD YN OED. Mae'r Cyfarwyddyd yn sicrhau bod addasiadau'n cael eu gwneud er lles cyffredinol yr holl berchnogion eiddo yn yr ardal, ac yn chwarae rôl bwysig o ran sicrhau bod unffurfiaeth a manylion pensaernïol yr ardal yn cael eu cynnal ar gyfer cenedlaethau i ddod. MAE'N ANGENRHEIDIOL CAEL CANIATÂD CYNLLUNIO GAN Y CYNGOR CYN CYCHWYN AR Y DATBLYGIADAU BYCHAIN CANLYNOL:-

***1. Cynteddau***
Adeiladu porth y tu allan i unrhyw ddrws allanol sy'n wynebu priffordd

***2. Waliau, Gatiau a Ffensys***
Adeiladu, gwella neu addasu ffordd o amgáu.

***3. Paentio***
Gorchuddio deunydd wal wreiddiol drwy baentio a newid lliw waliau allanol sydd wedi'u paentio, gwaith maen neu ffenestri lle maent yn wynebu priffordd.

***4. Wyneb caled***
Adeiladu wyneb caled os yw rhwng y ffordd fawr a'r tŷ.

***5. Ffenestri a Drysau***
Addasu neu ailosod drysau a ffenestri mewn tŷ lle maent yn wynebu'r briffordd.

***6. Toeau***
Gwaith ail-doi, newidiadau i fanylion to a simneiau, gosod goleuadau to ac adeiladu ffenestri dormer ac estyniadau to.

NID OES FFI AR GYFER CEISIADAU CYNLLUNIO O GANLYNIAD I'R CYFARWYDDYD

Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn gysylltiedig ag unrhyw bwyntiau a nodwyd yn y daflen hon neu os hoffech gopi o r gwerthusiad mabwysiedig, cysylltwch â:-

**Y Tîm Cadwraeth, Grŵp Adfywio , Cynllunio Strategol,**
**Dinas a Sir Caerdydd, CY4, Adeilad y Cwrt**
**Neuadd y Sir, Glanfa r Iwerydd,**
**Caerdydd. CF10 4UW**
**Rhif ffôn: 029 2087 3485 / 3480**


CYNLLUNIO STRATEGOL

**Taflen o gynghorion i ddeiliaid tai, wedi**

Diweddarwyd Mawrth 2010

Parth Rheolaeth Hyblyg yn cynnwys Cyfarwyddyd Erthygl 4. Taflen cyngor i ddeiliaid cartrefi ar Bangor St, Lochaber St, Tulloch St, Essich St, Montgomery St, Kelvin Rd, Pen-y-wain Pl, Pen-y-wain Rd, Werfa St, Hendy St, Boverton St, Morlais St.

# PARC Y RHATH



**ARDAL GADWRAETH**

CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

Byw mewn

# ardal gadwraeth

Mae’ch eiddo o fewn Ardal Gadwraeth
***Parc y Rhath*.**

Mae Ninian Road yn cynnig blaen filas o gyfnod Fictoria ac Edward sy’n creu effaith cefndir teras i Barc y Rhath. Mae Ty Draw Road yn debyg i Ninian Road a gyda’i gilydd maent yn diffinio ymylon y Parc yn effeithiol.
Cafodd yr ardal gydnabyddiaeth ffurfiol am ansawdd bensaernïol a hanesyddol yr adeiladau ar ôl nodi Parc y Rhath yn Ardal Gadwraeth yn 1973. Estynnwyd ffin yr Ardal Gadwraeth yn 1989 i gynnwys y strydoedd ar ochr ddeheuol Ninian Road.

Os yw adeilad yn un rhestredig, yna bydd rheolau arbennig yn weithredol fydd yn gwrthwneud y cyngor hwn.

## rheolau cynllunio arbennig

Mae statws Ardal Gadwraeth yn golygu fod gan y Cyngor nifer o bwerau statudol i ddiogelu yn erbyn rhai newidiadau. Mae’r rhain yn rheolau cynllunio arbennig sy’n ymwneud â gwaith penodol a ganiateir yn arferol, h.y. gwaith na fyddai’n galw am ganiatâd cynllunio. Dyma grynodeb isod:-

## wyneb waliau

Mae angen caniatâd cynllunio am unrhyw waith gorchuddio’r gwaith bric/gwaith carreg ag unrhyw garreg, carreg hogi wneud neu wyneb pren neu unrhyw driniaeth wyneb.*

## soseri lloeren neu offer telathrebu arall

Mae angen cael caniatad cynllunio cyn y gellir gosod neu ailosod soser lloeren neu offer telecyfathrebu arall os yw’n wynebu priffordd neu a fewn y tir *

## dymchwel adeiladau

Mae angen Caniatâd Ardal Gadwraeth i ddymchwel adeiladau neu strwythurau (gan gynnwys waliau a thai allan). Os ydych yn ystyried dymchwel, dylech gysylltu â’r Adran Gynllunio.

D.S.*rhaid talu ffi am y math hwn o gais.

## estyn y to

Mae angen caniatâd cynllunio i estyn yr eiddo drwy estyn y to neu waith arall i wneud y to yn fwy sy’n gofyn am ganiatâd cynllunio.*

***Mae Rheolau a bennwyd gan Gyfarwyddyd Erthygl 4 wedi’u nodi dros y dudalen***

## canllawiau dylunio

Yn gyffredinol disgwylir dyluniad o’r radd flaenaf ar gyfer adeiladau newydd ac ar gyfer newid neu adfer eiddo sydd eisoes yn bod. Dylid dylunio unrhyw adeiladau newydd i weddu â ffurf a graddfa’r ardal bresennol. Dylid cynnal ac adnewyddu adeiladau sydd eisoes yn bod â gofal a sensitifrwydd.


Egwyddor gyntaf yr Ardal Gadwraeth yw cadw a gwella. Dyma rai ffyrdd o gyflawni hyn. Buasai’r Cyngor yn disgwyl i bobl ddilyn y cyngor hwn wrth gyflwyno ceisiadau cynllunio. Dylid dilyn yr amcanion hyn wrth wneud unrhyw waith newydd er mwyn sicrhau y cedwir cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

## modd o gau’r tir

Dylid cadw’r waliau o amgylch yr ardd flaen neu ardd ar yr ochr yn hytrach na gosod amrywiaeth anhydwedd o waith bric, waith bloc neu ffensys.

ardal gadwraeth

gangynnwys cyfarwyddyd erthygl 4




## pyrth

Dylid cadw neu adnewyddu pyrth a drysau gwreiddiol os oes galw am hynny gan ddefnyddio deunyddiau sy’n cyfateb â’r gwreiddiol.

## ffenestri a drysau

Yn yr ardal rheolaeth hyblyg a ddisgrifir ar glawr y daflen hon, bydd rhywfaint o hyblygrwydd o ran cynllun ffenestri newydd. Mae hyn yn golygu, tra dylid ceisio cadw steil wreiddiol y ffenestri lle bo’n bosibl, y gellir defnyddio ffenestri o fath sash nad ydynt yn llithro mewn pren, PVCu neu alwminiwm: ar yr amod bod cyfrannedd y cwareli a sefyllfa’r bar llorweddol a’r bariau eraill sy’n eu rhannu wedi’u hail-greu yn gywir er mwyn gofalu fod golwg y ffenestri newydd yn cyfateb i’r olwg wreiddiol. Mae’n hanfodol bod maint a siâp unrhyw far llorweddol sy’n rhannu’r ffenestri yr un fath â’r rheiliau ar y ffenestri sash gwreiddiol. Dylai drysau blaen hefyd adlewyrchu cyfrannedd y rhai gwreiddiol.

## toeon

Yn gyffredinol, dylid cadw deunydd gwreiddiol y to. Dylid defnyddio llechi neu deils naturiol newydd neu rhai wedi’u hadfer. Mae’n dderbyniol defnyddio teil synthetig gweadog o’r radd flaenaf. Dylid cadw teils crib ac estyll tywydd addurniadol.

## dormer a nen lampau

Os yw’n bosibl i droi’r llofft yn ystafell, ni ddylai’r ffenestri dormer na nen lampau fod yn weladwy o’r stryd oni bai bod eu dyluniad a’r deunyddiau yn cydweddu â chymeriad yr eiddo cyfan.

## simnai

Mae’r corn a’r pot simnai wreiddiol yn rhan annatod o ddyluniad nifer o’r adeiladau yn yr ardal gadwraeth. Os ydynt yn beryglus a bod angen eu hatgyweirio dylid eu hail adeiladu yn ôl yr uchder a’r dyluniad gwreiddiol, hyd yn oed os nad oed neb yn eu defnyddio mwyach.

## lliw

Gall defnyddio lliwiau cryf ar y ffenestri a waliau gael effaith andwyol ar y strydlun. Yn amlach na pheidio mae defnyddio gwyn neu hufen yn llawer mwy addas.